Taflen Ffeithiau 25 Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol

Mai 2016

# Amlinelliad Cyfraith Gyffredin

## Gwybodaeth i Rieni am Achosion Llys

### Cyflwyniad

Mae gan y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd bryderon arwyddocaol ynglŷn â llesiant eich plentyn.

### Mae gweithiwr cymdeithasol eich plentyn yn gyfrifol am:

- Gynhyrchu cynllun sy'n sicrhau bod eich plentyn yn ddiogel ac â dyfodol sefydlog a diogel
- Trefnu cyfarfod gyda chi a'ch cyfreithiwr i drafod pryderon y Gwasanaethau Plant am lesiant eich plentyn, ac
- Adnabod beth sydd angen ei newid i wella pethau.

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Mae eich gweithiwr cymdeithasol wedi trefnu cyfarfod gyda chi a'ch cyfreithiwr er mwyn:

- Esbonio pryderon y Gwasanaethau Plant
- Cytuno pa gymorth sydd ei angen arnoch i newid pethau er mwyn osgoi mynd i'r llys
- Adnabod unrhyw aelodau o'ch teulu estynedig sy'n medru cynnig cymorth i chi a'ch plentyn
- Adnabod unrhyw aelodau o'ch teulu estynedig a allai ofalu am eich plentyn os na fedrwch chi wneud hynny.

### Beth sydd angen i chi ei wneud nesaf?

- Cysylltwch â chyfreithiwr – mae rhestr ynghlwm wrth y llythyr
- Adabod aelodau teuluol
- Cadarnhau gyda gweithiwr cymdeithasol eich plentyn y byddwch yn mynychu'r cyfarfod
- Mynychu'r cyfarfod a drefnwyd

### Beth fydd yn digwydd os na wnewch unrhyw beth?

Bydd y Gwasanaethau Plant yn ystyried cymryd camau cyfreithiol ar unwaith a allai gynnwys mynd â'ch plentyn i ffwrdd.

### Pwy i gysylltu â nhw os nad ydych yn deall beth sy'n digwydd:

Dylech gysylltu â gweithiwr cymdeithasol eich plentyn ar unwaith. Os nad ydynt ar gael, gofynnwch am gael siarad â'u rheolwr.

### Ein manylion cyswllt

Os ydych angen mwy o help, cysylltwch â ni a gofyn am gael siarad â gweithiwr gofal cymdeithasol.

**Ffôn:** 01495 762200

**Ebost:**
socialcareCallTorfaen@torfaen.gov.uk

**Ein Cyfeiriad:**
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Gofal Cymdeithasol a Thai
Y Ganolfan Ddinesig
Pont-y-pŵl, Torfaen
NP4 6YB

*Gellir cael y daflen hon mewn ieithoedd a ffurfiau eraill. Cysylltwch â ni i drefnu hyn.*